Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CYNGOR GWYNEDD

# Cronfa Uwchraddio Eiddo Masnachol Canol Trefi

## CANLLAWIAU
## 2026

**Mae'r canllaw hwn ar gyfer perchnogion busnesau, neu asiantaethau sydd yn gweithio ar eu rhan, sydd yn dymuno ymgeisio am grant i wella edrychiad eu heiddo ym Mangor a Pwllheli.**

| |
|---|
| **Os oes gennych ddiddordeb yn y gronfa, cysylltwch ag** <br> **adfywio@gwynedd.llyw.cymru a 07557208534** |

## 1. Crynodeb a Phwrpas y Gronfa

Er mwyn ymateb i un o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023-28, sef adfywio canol trefi Gwynedd, mae Cyngor Gwynedd wedi lansio cronfa beilot i wella edrychiad adeiladau eiddo masnachol yng nghanol **Bangor a Phwllheli.** Mae'r Gronfa yn cael ei hariannu drwy Gronfa Effaith Balchder Bro drwy Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyda chefnogaeth Cyngor Gwynedd. Pwrpas y gronfa yw gwella edrychiad eiddo yng nghanol trefi a gwella'r ffabrig drefol.

## 2. Beth sydd yn gymwys?

Mae'r gronfa yn cynnig cefnogaeth ar gyfer gwelliannau cyfalaf, ffisegol a **gweledol** i eiddo masnachol. Enghreifftiau o'r hyn fyddai yn **gymwys** yw'r gwelliannau canlynol:

- Gwelliannau i ffabrig allanol yr adeilad;
- Peintio yr adeilad;
- Uwchraddio ffenestri a drysau;
- Arwyddion newydd **

**** Bydd rhaid i unrhyw arwyddion a gwaith hyrwyddo sy'n derbyn arian gyd-fynd a Pholisi Iaith Cyngor Gwynedd a rheoliadau'r Awdurdod Cynllunio. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr rannu copi o broflen unrhyw arwydd gyda Chyngor Gwynedd cyn ei archebu a'i osod.**

Manylion pellach:

Polisi Iaith Cyngor Gwynedd: PolisiIaith2022.Cymraeg.pdf

Ymholiadau Cynllunio : cynllunio@gwynedd.llyw.cymru

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r hyn **NA** fydd yn gymwys:

- Gwelliannau i'r to;
- Gwelliannau mewnol;
- Gwelliannau i rannau o'r adeilad sydd ddim yn weledol i'r cyhoedd wrth basio'r adeilad.
- Unrhyw gost refeniw – enghreifftiau yn cynnwys astudiaethau/adroddiadau, deunyddiau marchnata, offer a chyfarpar bychan;
- Costau llafur unigolion ar eu heiddo;
- Cyfraniad tuag at gost pryniant;
- Costau sy'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer y gwaith e.e. cost ysgrifennu'r cais, ffioedd proffesiynol, ffioedd am ganiatadau statudol;
- Costau rhedeg a chynnal a chadw'r busnes;
- Cynlluniau ble mae goblygiadau cyfrinachedd, megis Camerâu Cylch Cyfyng;
- Talu benthyciadau;
- Costau cyflogi swyddi;
- Eitemau moethus neu bersonol;
- Dyblygu cyllid am yr un eitem o ffynonellau eraill;
- Datblygiadau sydd yn gysylltiedig â hyrwyddo cred neu i ddiben gwleidyddol.

Bydd angen i chi anfon lluniau o'r adeilad cyn ac ar ôl y buddsoddiad. Bydd gan swyddog dynodedig o'r Cyngor, neu gynrychiolydd ar ran y Cyngor, hawl i ymweld â'r safle i wirio'r gwaith.

Bydd rhaid i'r gwaith ddiwallu gofynion iechyd a diogelwch a bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am gael yswiriant digonol yn ystod, ac ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. Bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr eiddo'n cael ei gynnal a'i gadw i safon.

## 3. <u>Pwy all wneud y cais?</u>

Mae'r grant i berchnogion eiddo masnachol (sydd wedi cofrestru am ardrethi annomestig) yng nghanol dinas Bangor a chanol tref Pwllheli. Bydd angen i fusnesau fod wedi'u lleoli o fewn ffin y prif ganolfannau masnachol yn y trefi hyn. Manylion yn Atodiad 1.

Yn ogystal, bydd angen i'r busnes:

- Gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus;
- Fod o dan lefel trothwy Isafswm Cymorth Ariannol (ICA) Deddf Rheoli Cymhorthdal (2022) yn ystod y 3 blynedd ariannol flaenorol;
- Sicrhau derbyn caniatâd perchennog tir/eiddo i wneud y gwaith.

Ni fydd posib ystyried unrhyw gais a ddaw i uwchraddio eiddo os:

- Ydi'r eiddo eisoes wedi derbyn buddsoddiad Grant Gwella Eiddo neu Grant Gwydnwch (ar gyfer gwaith i flaen yr adeilad) gan Gyngor Gwynedd ers 2021;
- Mae'r adeilad eisoes dan ystyriaeth i dderbyn grant neu fenthyciad arall gan Gyngor Gwynedd ar hyn o bryd (grantiau eiddo masnachol a grantiau preswyl).

Nid yw cwmnïau Cadwyn Genedlaethol a Rhyngwladol yn gymwys am gefnogaeth.

## 4. Am faint gallwn ni ymgeisio?

Yr isafswm y gellir ei ddyfarnu yw £2,500 a'r uchafswm yw £10,000. Gall y cyfraniad fod hyd at 70% o werth y gwaith.

Rhaid atodi amcan brisiau gwreiddiol. Mae angen dau amcan bris am waith o dan £4,999. Mae angen tri amcan bris os yw cyfanswm y gwaith yn y cais yn fwy na £5,000.

Mi fydd Cyngor Gwynedd yn trefnu i'r amcan brisiau gael eu gwirio i sicrhau eu bod yn brisiau teg sydd yn adlewyrchu gwerth y farchnad.

## 5. Erbyn pryd sydd angen ymgeisio a chwblhau'r cynllun?

Mae'r grant ar agor ac mae'r dyddiad cau am **5 yr hwyr, 18 Mai 2026**.

Bydd angen cwblhau'r gwaith a chyflwyno hawliad am y cyllid i Gyngor Gwynedd cyn **31 Rhagfyr 2026**.

## 6. Sut mae gwneud cais?

Gallwch wneud cais **RŴAN** cyn belled â bod gennych bob caniatâd. Cysylltwch er mwyn derbyn ffurflen gais drwy e-bostio adfywio@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio 07557 208534

**Dim ond ceisiadau cyflawn a chymwys gellir eu prosesu ar gyfer y grant. Ni fydd cais yn gyflawn heb fod y ffurflen gais wedi'i llenwi a bod amcan brisiau gwreiddiol a lluniau o'r eiddo wedi'u cynnwys gyda'r ffurflen gais.**

Bydd angen i chi anfon eich cais a'r dogfennau cefnogol i **adfywio@gwynedd.llyw.cymru** . Yr hyn fydd angen eu cynnwys yn yr e-bost yw:

- ✓ Ffurflen gais llawn gyda trosolwg clir o'r prosiect a phob adran wedi'i llenwi;
- ✓ Ffurflen wedi ei harwyddo;
- ✓ Tystiolaeth o ddyfynbrisiau sy'n dilyn y polisi caffael wedi'u hatodi;
- ✓ Tystiolaeth o ganiatadau statudol (cynllunio ag ati) ble y bo'n briodol;
- ✓ Lluniau o'r eiddo heddiw.

Ar ôl derbyn eich cais, byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais.

Bydd pob cais yn cael ei wirio er mwyn sicrhau ei fod yn gyflawn yn unol â'r canllawiau. Yn anffodus, ni allwn brosesu ceisiadau anghyflawn neu anghymwys.

## 7. Beth yw amserlen y Gronfa

Mae'r amserlen isod yn gosod y camau allweddol wrth lansio a gweithredu'r Gronfa hon. Gall fod peth newid yn ystod cyfnod y Gronfa.

- **Lansio'r gronfa**: 20 Mawrth 2026;
- **Dyddiad cau**: 18 Mai 2026.
- **Hysbysu'r ymgeiswyr llwyddiannus**: Mehefin 2026.
- **Cwblhau a gwario'r cyllid llawn erbyn**: 31 Rhagfyr 2026;

Ni ellir gwarantu y bydd eich cais yn cael ei ystyried os yw'r gwaith papur yn anghyflawn.

Y cyfeiriad e-bost i anfon eich cais a'r atodiadau yw adfywio@gwynedd.llyw.cymru .

## 8. Beth yw'r broses asesu a phenderfynu?

Bydd eich cais yn cael ei adolygu gan Uned Rhaglenni Adfywio, Cyngor Gwynedd. Rydym yn disgwyl y bydd galw mawr am y grant hwn ac yn anffodus, dim ond cyfran o'r ceisiadau a dderbyniwn fyddwn yn gallu eu cefnogi. Bydd eich cais yn cael ei asesu yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

1. ***Ansawdd a chyflawnrwydd y cais*** - pa mor glir a manwl yw'r wybodaeth a ddarperir fel rhan o'r cais, gan gynnwys disgrifiad o'r gwaith arfaethedig a'r dyfynbrisiau perthnasol.
2. ***Effaith weledol ar ganol y dref*** – i ba raddau y bydd y gwaith arfaethedig yn gwella edrychiad yr adeilad ac yn cyfrannu at wella edrychiad y stryd.
3. ***Amlygrwydd y Lleoliad -*** i ba raddau mae'r adeilad mewn lleoliad amlwg neu strategol o fewn canol y dref, er enghraifft ar brif stryd siopa, ar gornel brysur, neu mewn man sy'n weladwy i nifer fawr o bobl.
4. ***Cyfraniad buddsoddiad preifat*** – lefel y cyfraniad ariannol gan yr ymgeisydd tuag at y gwaith arfaethedig.

Bydd y broses sgorio uchod hyn yn cael ei defnyddio i asesu a blaenoriaethu ceisiadau

lle mae mwy o alw na chyllid ar gael.

Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn anfon cytundeb ariannu safonol atoch, ynghyd ag unrhyw amodau penodol yn ymwneud â'ch dyfarniad.

Byddwch yn gallu dechrau ar y gwaith ar ôl i chi ddychwelyd copi o'r cytundeb ariannu. Bydd Cyngor Gwynedd yn eich talu ar sail yr anfonebau a dderbyniwyd ar gyfer y gwerth cytunedig.

Os ydych yn dewis dechrau unrhyw waith cyn derbyn y cytundeb ariannu, eich risg chi yw gwneud y buddsoddiad hwnnw.

Bydd yn ofynnol ar yr ymgeisydd i gwblhau ffurflen monitro gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi hyn ar ddiwedd y cynllun.

Os fydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn yn eich hysbysu o hyn. Yn anffodus does dim trefn apêl yn gysylltiedig â'r Gronfa yma.


Rydym eisiau gwneud y prosesau gwneud cais, asesu a gwneud penderfyniad mor deg a thryloyw â phosib. Rydym yn croesawu adborth adeiladol ar unrhyw un o'n prosesau a gweithdrefnau.

Er mwyn cydymffurfio â'n prosesau archwilio, byddwn yn cadw copïau o ffurflenni cais a deunyddiau ategol gan geisiadau sydd wedi'u gwrthod am flwyddyn wedi dyddiad y llythyr gwrthod ac yn cadw ceisiadau llwyddiannus hyd 2036 a byddwn yn eu dinistrio ar ôl hynny.

Efallai y gofynnir i fusnesau sy'n llwyddiannus yn y broses grant gymryd rhan mewn proses werthuso ar gyfer Cyngor Gwynedd. Felly, drwy dderbyn y grant rhaid i chi fod yn fodlon a gallu cymryd rhan yn y broses hon i'n helpu i ddeall effaith a gwaddol y grant.

**ATODIAD 1 - MAPIAU O BANGOR A PHWLLHELI YN AMLINELLU'R ARDAL SYDD YN GYMWYS I GYFLWYNO CAIS (ardal wedi ei amlygu ).**

**BANGOR**




**PWLLHELI**

